

Dydd Gwener, 18 Medi 2020

Hysbysiad o gyfarfod**Pwyllgor Craffu Cymunedau Cryf****Dydd Llun, 28ain Medi, 2020 at 2.00 pm,
Remote Microsoft Teams Meeting**

*Nodwch y cynhelir rhag-gyfarfod 30 munud cyn dechrau'r cyfarfod ar gyfer
aelodau'r pwyllgor*

AGENDA

Rhif yr Eitem	Eitem	Tudalennau
RHAN A: MATERION CRAFFU A THROSEDD AC ANHREFN		
Dim materion l'w trafod.		
RHAN B – PWLLGOR DETHOL CYMUNEDAU CRYF		
1.	Ymddiheuriadau am absenoldeb	
2.	Datganiadau o Fuddiant	
3.	Fforwm Agored i'r Cyhoedd. I rannu eich adborth am adroddiad Darparu Canolfannau Ailgyrchu Gwastraff y Cartref yn y Dyfodol neu'r Wasanaeth Casgliadau Gardd: <ul style="list-style-type: none">• Anfonwch e-bost at registertospeak@monmouthshire.gov.uk• a byddwch yn cael ymateb awtomatig gyda chyfarwyddiadau ar sut i gyflwyno'r ffeiliau hynny i'r pwyllgor.• Gallwch wedyn:<ul style="list-style-type: none">○ lanlwytho ymateb ysgrifenedig (uchafswm o 500 gair), neu○ recordio clip fideo neu sain er mwyn rhannu eich barn (uchafswm o 4 munud). Os bydd cyflwyniadau'n fwy nag awr yn gyfan gwbl, caiff sylwadau eu rhannu yn ôl thema (a heb eu chwarae'n llawn) ond bydd pob cyflwyniad ar gael i'r pwyllgor.	

	Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyniadau cyhoeddus yw dydd Mercher 23ain Medi am 5pm. Mae manylion llawn am y broses siarad cyhoeddus ar gael ar dudalen 4 y pecyn agenda.	
4.	Craffu cyn penderfynu ar Ddarpariaeth Canolfannau Ailgylchu Gwastraff y Cartref yn y Dyfodol (gan gynnwys Brynbuga).	1 - 174
5.	Craffu cyn penderfynu ar y Gwasanaeth Gwastraff Gardd.	175 - 208

Paul Matthews

Prif Weithredwr

MONMOUTHSHIRE COUNTY COUNCIL
CYNGOR SIR FYNWY

MAE CYFANSODDIAD Y PWYLLGOR FEL A GANLYN:

Y Cynghorwyr Sirol:

P. Clarke
L.Dymock
D. Dovey
A. Easson
L. Guppy
R. Harris
D. Batrouni
V. Smith
J.Treharne
A. Webb

Gwybodaeth I'r Cyhoedd

Mynediad i gopiâu papur o agendâu ac adroddiadau

Gellir darparu copi o'r agenda hwn ac adroddiadau perthnasol i aelodau'r cyhoedd sy'n mynychu cyfarfod drwy ofyn am gopi gan Gwasanaethau Democrataidd ar 01633 644219. Dylid nodi fod yn rhaid i ni dderbyn 24 awr o hysbysiad cyn y cyfarfod er mwyn darparu copi caled o'r agenda hwn i chi.

Edrych ar y cyfarfod ar-lein

Gellir gweld y cyfarfod ar-lein yn fyw neu'n dilyn y cyfarfod drwy fynd i www.monmouthshire.gov.uk neu drwy ymweld â'n tudalen Youtube drwy chwilio am MonmouthshireCC. Drwy fynd i mewn i'r ystafell gyfarfod, fel aelod o'r cyhoedd neu i gymryd rhan yn y cyfarfod, rydych yn caniatáu i gael eich ffilmio ac i ddefnydd posibl y delweddau a'r recordiadau sain hynny gan y Cyngor.

Y Gymraeg Mae'r Cyngor yn croesawu cyfraniadau gan aelodau'r cyhoedd drwy gyfrwng y Gymraeg neu'r Saesneg. Gofynnwn gyda dyledus barch i chi roi 5 diwrnod o hysbysiad cyn y cyfarfod os dymunwch siarad yn Gymraeg fel y gallwn ddarparu ar gyfer eich anghenion.

Canllawiau Fforwm Agored Cyhoeddus Pwyllgor Craffu Dethol Cymunedau Cryf 28^{ain} Medi 2020

Bydd y Pwyllgor Craffu Dethol Cymunedau Cryf yn cael ei gynnal yn rhithwir ac yn cael ei ffrydio'n fyw. Bydd dolen i ffrwd fyw'r cyfarfod ar gael ar dudalen gyfarfod gwefan Cyngor Sir Fynwy yma:

<https://democracy.monmouthshire.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=139&MId=4614>

Rydym wedi arwain y ffordd o ran dychwelyd i gyfarfodydd cwbl fyw ond mae cyfyngiadau'r dechnoleg yn ei gwneud yn anodd cynnal fforwm agored cyhoeddus confensiynol. Byddwn yn defnyddio'r un dull â phroses siarad cyhoeddus pwyllgor cynllunio'r awdurdodau i alluogi'r rhai sy'n dymuno siarad ar y pwnc i fynegi eu barn i'r pwyllgor. Gwahoddir preswylwyr i rannu eu barn ar y cynigion a gallant eu cyflwyno i'r pwyllgor yn un o'r ffyrdd canlynol:

Fideo

Gallwch recordio fideo gyda sain nad yw'n fwy na 4 munud o hyd a fydd yn cael ei chwarae i bawb sy'n cymryd rhan a'r cynghorwyr yn y pwyllgor wrth ystyried yr eitem berthnasol.

Sain

Gallwch gofnodi ffeil sain yn unig nad yw'n fwy na 4 munud o hyd a fydd yn cael ei chwarae i bawb sy'n cymryd rhan a'r cynghorwyr yn y pwyllgor wrth ystyried yr eitem berthnasol.

Sylwadau Ysgrifenedig

Os nad ydych yn gallu defnyddio'r opsiynau uchod neu os nad ydych yn dymuno defnyddio'r opsiynau uchod, gallwch gyflwyno sylwadau ysgrifenedig i'r cyngor a fydd yn cael eu darllen i'r pwyllgor wrth ystyried yr eitem berthnasol. Rhaid i sylwadau ysgrifenedig fod nid yn fwy na 500 gair.

Gallwch gyflwyno cynrychiolaeth i ni drwy ddefnyddio'r ddolen ganlynol:

https://iweb.ityouvision.com/portal/f?p=customer:category_link:::::CUID,LANG:A8FACFF3E01C14610361E05361401A8C0F7AE41B,EN&P_LANG=en. Bydd angen i chi gofrestru ar gyfer cyfrif Fy Sir Fynwy er mwyn cyflwyno'r ymateb neu ddefnyddio eich manylion mewngofnodi os ydych wedi cofrestru o'r blaen.

Y dyddiad cau ar gyfer cyflwyno sylwadau i'r Cyngor yw 5pm dydd Mercher 23^{ain} Medi 2020.

Mae'r ffurflen gyflwyno wedi'i sefydlu i adlewyrchu proses ein pwyllgorau cynllunio ac felly gellir anwybyddu unrhyw gyfeiriad at geisiadau cynllunio. Gellir disodli unrhyw gyfeiriad neu gais am wybodaeth i geisiadau cynllunio gyda'r geiriad 'Pwyllgor Craffu Dethol'.

Os bydd y cyflwyniad fideo yn fwy nag awr o hyd, bydd fideos yn cael eu rhannu fesul thema (ni chaiff eu chwarae'n gyfan gwbl), er y bydd yr holl gynrychiolaethau a dderbynnir ar gael i gynghorwyr cyn y pwyllgor.

Nodau a Gwerthoedd Cyngor Sir Fynwy

Cymunedau Cynaliadwy a Chryf

Canlyniadau y gweithiwn i'w cyflawni

Neb yn cael ei adael ar ôl

- Gall pobl hŷn fyw bywyd da
- Pobl â mynediad i dai addas a fforddiadwy
- Pobl â mynediad a symudedd da

Pobl yn hyderus, galluog ac yn cymryd rhan

- Camddefnyddio alcohol a chyffuriau ddim yn effeithio ar fywydau pobl
- Teuluoedd yn cael eu cefnogi
- Pobl yn teimlo'n ddiogel

Ein sir yn ffynnu

- Busnes a menter
- Pobl â mynediad i ddysgu ymarferol a hyblyg
- Pobl yn diogelu ac yn cyfoethogi'r amgylchedd

Ein blaenoriaethau

- Ysgolion
- Diogelu pobl agored i niwed
- Cefnogi busnes a chreu swyddi
- Cynnal gwasanaethau sy'n hygyrch yn lleol

Ein gwerthoedd

- **Bod yn agored:** anelwn fod yn agored ac onest i ddatblygu perthnasoedd ymddiriedus
- **Tegwch:** anelwn ddarparu dewis teg, cyfleoedd a phrofiadau a dod yn sefydliad a adeiladwyd ar barch un at y llall.
- **Hyblygrwydd:** anelwn fod yn hyblyg yn ein syniadau a'n gweithredoedd i ddod yn sefydliad effeithlon ac effeithiol.
- **Gwaith tîm:** anelwn gydweithio i rannu ein llwyddiannau a'n methiannau drwy adeiladu ar ein cryfderau a chefnogi ein gilydd i gyflawni ein nodau.

Canllawiau Pwyllgorau Craffu Sir Fynwy

Rôl y Rhag-gyfarfod

1. Pam mae'r Pwyllgor yn craffu ar hyn? (cefndir, materion allweddol)
2. Beth yw rôl y Pwyllgor a pha ganlyniad y mae Aelodau am eu cyflawni?
3. A oes digon o wybodaeth i gyflawni hyn? Os na, pwy allai ddarparu hyn?
 - Cytuno ar y drefn holi a pha Aelodau fydd yn arwain
 - Cytuno ar gwestiynau i swyddogion a chwestiynau i'r Aelod Cabinet

Cwestiynau ar gyfer y Cyfarfod

Craffu ar Berfformiad

1. Sut mae perfformiad yn cymharu â blynyddoedd blaenorol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
2. Sut mae perfformiad yn cymharu â pherfformiad cynghorau eraill/darparwyr gwasanaethau eraill? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
3. Sut mae perfformiad yn cymharu â thargedau penodol? A yw'n well neu'n waeth? Pam?
4. Sut y pennwyd targedau perfformiad? Ydyn nhw'n ddigon heriol/realistig?
5. Sut mae defnyddwyr gwasanaeth/y cyhoedd/partneriaid yn gweld perfformiad y gwasanaeth?
6. A fu unrhyw archwiliadau ac arolygiadau diweddar? Beth oedd y canfyddiadau?
7. Sut mae'r gwasanaeth yn cyfrannu at gyflawni amcanion corfforaethol?
8. A yw'r gwelliant/dirywiad o ran perfformiad yn gysylltiedig â chynnydd/gostyngiad mewn adnoddau? Pa gapasiti sydd i wella?

Craffu ar Bolisiau

1. Ar bwy mae'r polisi'n effeithio ~ yn uniongyrchol ac yn anuniongyrchol? Pwy fydd yn elwa fwyaf/lleiaf?
2. Beth yw barn defnyddwyr gwasanaeth/rhanddeiliaid? A ydynt yn credu y bydd yn cyflawni'r canlyniad a ddymunir?
3. Beth yw barn y gymuned gyfan - safbwynt y 'trethdalwr'?
4. Pa ddulliau a ddefnyddiwyd i ymgynghori â rhanddeiliaid? A wnaeth y broses alluogi pawb sydd â buddiant i ddweud eu dweud?
5. Pa arferion a dewisiadau a ystyriwyd wrth ddatblygu/adolygu'r polisi hwn? Pa dystiolaeth sydd ar gael i lywio'r hyn sy'n gweithio?
6. A yw'r polisi hwn yn cyd-fynd â'n hamcanion corfforaethol, fel y'u diffinnir yn ein cynllun corfforaethol?
7. A ystyriwyd yr holl oblygiadau datblygu cynaliadwy, cydraddoldeb a diogelu perthnasol? Er enghraifft, beth yw'r *gweithdrefnau y mae angen eu rhoi ar waith i amddiffyn plant*?
8. Faint fydd y gost hon i'w gweithredu a pha ffynhonnell ariannu sydd wedi'i nodi?
9. Sut bydd perfformiad y polisi'n cael ei fesur a'r effaith yn cael ei gwerthuso.

Cwestiynau i'r Pwyllgor, i orffen ...

A oes gennym y wybodaeth angenrheidiol i ffurfio casgliadau/gwneud argymhellion i'r weithrediaeth, y Cyngor, partneriaid eraill? Os nac oes, a oes angen i ni:

- (i) Ymchwilio i'r mater yn fanylach?
- (ii) Cael rhagor o wybodaeth oddi wrth dystion eraill – Aelod Gweithredol, arbenigwr annibynnol, aelodau o'r gymuned leol, defnyddwyr gwasanaethau, cyrff rheoleiddio ...
- (iii) Cytuno ar gamau pellach i'w cymryd o fewn amserlen/adroddiad monitro yn y dyfodol...

